

Adroddiad i Bwyllgor Cyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian

20fed Mai 2016

Eleni eto, gwelwyd gostyngiad amlwg ym mwyafrif y mathau o droseddau ar lein Arfordir y Cambrian.

Roedd mwyafrif yr achosion a ddeliwyd gyda hwy yn Droseddau Traffig Ffyrdd, yn bennaf problemau parhaus gyda gyrwyr yn camddefnyddio'r croesfannau rheilffordd. Yn ystod y cyfnod o 12 mis o Ebrill 2016, cyflwynwyd Hysbysiadau Cosb Penodedig i ddeuddeg o droseddwyr gan eu dirwyo am £100 yr un ac o ganlyniad rhoddwyd tri phwynt ar eu trwyddedau gyrru. Roedd y rhain am droseddau o Fethu â Chydymffurfio â'r goleuadau coch, neu yn yr achosion mwy difrifol, am Yrru Diofal.

Mae HTP wedi bod yn gweithio'n agos gyda Network Rail mewn perthynas â materion yn ymwneud â chroesfannau, yn arbennig yn Harlech. Mae'r groesfan yma'n eithaf anghyffredin gan fod yma gyffordd ffordd o fewn cyfyngiadau'r groesfan ac yn ddiweddar adnewyddwyd yr wyneb ac ail-beintwyd marciau'r ffordd. Ers i'r gwaith yma gael ei wneud nid ydym wedi derbyn unrhyw adroddiadau o gamddefnydd.

Mae goleuadau coch yn golygu ARHOSWCH. A dyna ni!

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

Gwelwyd gostyngiad pellach mewn achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn ystod y 12 mis diwethaf. Aed ag un digwyddiad o ymddygiad Meddw ac Afreolus o flaen y llys yn ystod y deuddeng mis diwethaf o ganlyniad i ddigwyddiadau ar lein y Cambrian ac fe gafodd gŵr ifanc 27 oed o Fanceinion ddirwyon o £260.

Mae ymchwiliadau yn digwydd ar hyn o bryd i ddau ddigwyddiad arall o Ymddygiad Afreolus, un rhwng Aberystwyth a Chaersws, a'r llall rhwng Abermaw a Phorthmadog. Yn y ddau achos fe gafodd y rhai dan amheuaeth eu hadnabod o'r camerâu cylch cyfyng ar y trên ac maent wedi eu cyfweld. Mae'r ffeiliau gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron ar hyn o bryd.

Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y dathlwyr yn dychwelyd o Aberystwyth i'r Drenewydd a'r Trallwng ar y trên sy'n gadael am 19:30 ar nos Sadwrn. Mae'n ymddangos fod cyfran dda o'r teithwyr yma'n dewis mynd i'r Amwythig bellach gyda chynnydd yn nifer y cwsmeriaid ar y gwasanaeth olaf i Aberystwyth o'r Amwythig. Caiff y trên yma ei fonitro yn rheolaidd gan swyddogion HTP ac er ei fod yn brysur iawn, fel arfer mae'r teithwyr yn ymddwyn yn dda iawn.

Mae gwasanaethau i ac o Bwllheli ar nos Sadwrn hefyd yn cael eu monitro ac yn hytrach na bod cynnydd mawr yn y teithwyr ar y trên olaf sy'n gadael o

Fachynlleth am 20:12 mae'n ymddangos bod cynnydd sylweddol yn y nifer sy'n teithio i Bwlheli ar y ddau drên olaf. Mae hyn mae'n debyg oherwydd bod clwb nos wedi agor ger yr orsaf. Byddwn yn monitro ymhellach yn ystod yr haf.

Mae hi yn bwysig fod pob teithiwr ar y trên, a'r criwiau trên, yn gallu gwneud eu siwrnai ac ymgymryd â'u dyletswyddau heb ofn bygythiadau na bod yn ddioddefwyr troseddau. Rhan allweddol o seilwaith Rheilffordd Arfordir y Cambrian yw ein bod yn gallu dangos i'r miloedd o ymwelwyr a gawn fod teithio ar y trên ar reilffyrdd y Cambrian, ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos, yn gallu bod, ac yn brofiad plaserus a diogel. Bydd HTP yn parhau i weithio gyda ein holl bartneriaid yn y diwydiant er sicrhau fod hyn bob amser yn wir.